

**CYNGOR BRO MORGANNWG
GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A
LLWYTHO A MANNAU PARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIO) (RHIF 10) 2022**

1. Ar 13 Rhagfyr 2022 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, greu Gorchymyn i osod y Cyfyngiadau Parcio a nodir yn yr atodlen isod.
2. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 19 Rhagfyr 2022 neu ar y dyddiadau y caiff yr arwyddion a'r marciau ffordd eu gosod neu eu tynnu, p'un bynnag sydd hwyraf, ac fe'i gelwir yn "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygio) (Rhif 10) 2022"
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r cynlluniau sy'n dangos yr ardal yr effeithir arni ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk
4. Os dymunwch gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos o'r 19 Rhagfyr 2022, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Mae'r Gorchymyn Rheoli Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:

Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN

I'w ychwanegu at atodlen map AX55

Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg

Hayes Road, Y Barri

Ar ochr y de-ddwyrain, o'r gyffordd â'r fynedfa i'r gylchfan, i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am 67.2m, cornel dde-ddwyreiniol y gyffordd â Lôn y Felin Wynt.

Ar ochr y de-ddwyrain, o gornel ogledd-ddwyreiniol y gyffordd â Lôn y Felin Wynt i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 38.5m, cornel dde-orllewinol y gyffordd â Hayes Lane.

Lôn y Felin Wynt, Y Barri

Ar y ddwy ochr, o'i chyffordd â Hayes Road i gyfeiriad y de-ddwyrain am bellter o 16.2m.

Dyddiedig 15 Rhagfyr 2022.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg,

Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA